

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR



Cyllid i fyfyrwyr — benthyciadau ar gyfer astudio rhan-amser 2017/18

www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk



cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales






Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

PWY DDYLAI DDARLLEN Y CANLLAW HWN?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr rhan-amser newydd ac sy'n parhau a ddechreuodd ar eu cwrs ar neu wedi 1 Medi 2014. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored (OU) neu ar gyrsiau dysgu o bell eraill.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio pa fenthyciadau a grantiau sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, yn ogystal â sut a phryd i ymgeisio amdanynt a'u talu yn ôl.

Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

 facebook.com/SFWales  twitter.com/SF_Wales  youtube.com/SFWFILM



Adran 1
**Beth yw
Cyllid
Myfyrwyr
Cymru?**

Tudalen 4

Adran 2
**Pa gyllid i
fyfyrwyr sydd
ar gael?**

Tudalen 5

Adran 3
**A ydw i'n
gymwys?**

Tudalen 8

Adran 4
**Sut a phryd
y dylwn i
wneud cais?**

Tudalen 10

Adran 5
**A fydd angen
i mi ddarparu
unrhyw
dystiolaeth?**

Tudalen 11

Adran 6
**Oes angen i mi
ailymgeisio pob
blyddyn?**

Tudalen 12

Adran 7
**Beth am
ad-daliadau?**

Tudalen 13

Adran 8
**Pa help
ychwanegol
sydd ar gael?**

Tudalen 15

Adran 9
**A oes unrhyw
ffynonellau
cyllid eraill ar
gael?**

Tudalen 18

**Rhagor o
wybodaeth a
chysylltiadau
defnyddiol**

Tudalen 19

**Fy rhestr
gyfeirio**

Tudalen 20

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

BETH YW CYLLID MYFYRWYR CYMRU?



Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfirwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.

Efallai y gallwch gael ystod o help a chymorth ariannol, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, eich cwrs a'r man lle y byddwch yn astudio. Ni fydd rhaid i'r rhan fwyaf o fyfirwyr dalu unrhyw ffioedd dysgu o flaen llaw.

Gallech gael grantiau a bwrsariaethau (na fydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl) a benthyciadau (y bydd yn rhaid i chi eu talu yn ôl). Yn ogystal, mae help ychwanegol ar gael ar gyfer y rhai mewn amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os oes gennych chi blant neu oedolion dibynnol, neu anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia neu ddyspracsia.

Am ragor o ganllawiau ac offer defnyddiol, trowch at www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Gellir gweld diweddariadau rheolaidd ar Facebook, Twitter a YouTube:


 [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)

 twitter.com/SF_Wales

 [youtube.com/SFWFILM](https://www.youtube.com/SFWFILM)



PA GYLLID I FYFYRWYR SYDD AR GAEL?




Mae llawer o help ar gael i chi pan fyddwch yn astudio. Yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol neu'r coleg, bydd gennych chi ddwy brif gost - ffioedd dysgu a chostau byw. Gallwch gael cymorth ariannol i helpu i dalu'r ddau.

Benthyciad Ffioedd Dysgu

Beth yw ei bwrpas?	Mae'r Benthyciad Ffioedd Dysgu yn helpu talu'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.
Faint alla i gael?	<p>Gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £2,625 os ydych chi'n astudio mewn prifysgol neu goleg wedi ei ariannu'n gyhoeddus neu'n breifat yng Nghymru.</p> <p>Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariennir yn gyhoeddus mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £6,935.</p> <p>Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariennir yn breifat mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £4,625.</p> <p>Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar y swm y bydd eich prifysgol neu'ch coleg yn ei godi arnoch.</p>
Sut fydd yn cael ei dalu?	Rydym yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol.
A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?	Bydd, gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.
Unrhyw beth arall?	<p>Rhaid bod dwyster y cwrs yr ydych yn ei astudio (gweler tudalen 7) fod yn 25% o leiaf er mwyn cael Benthyciad Ffioedd Dysgu.</p> <p>Os yw'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg yn fwy na'r Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael, bydd angen i chi dalu'r gwahaniaeth.</p> <p>Gallwch ymgeisio hyd at naw mis wedi i'ch cwrs gychwyn.</p>

Grant Cwrs

Beth yw ei bwrpas?	Gall y Grant Cwrs helpu talu am lyfrau, costau teithio a threuliau eraill.										
Faint alla i gael?	Hyd at £1,155 gan ddiybnnu ar eich incwm. <table border="1" data-bbox="414 318 1156 606"> <thead> <tr> <th>Incwm y Cartref</th> <th>Grant Cwrs Uchaf</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>£26,095 a llai</td> <td>£1,155</td> </tr> <tr> <td>Rhwng £26,096 a £28,179</td> <td>Grant Cwrs o £1,155 yn llai £1 am bob £1.886 o incwm (cyn treth) dros £26,095</td> </tr> <tr> <td>£28,180</td> <td>£50</td> </tr> <tr> <td>£28,181 a throsodd</td> <td>Dim Grant Cwrs</td> </tr> </tbody> </table>	Incwm y Cartref	Grant Cwrs Uchaf	£26,095 a llai	£1,155	Rhwng £26,096 a £28,179	Grant Cwrs o £1,155 yn llai £1 am bob £1.886 o incwm (cyn treth) dros £26,095	£28,180	£50	£28,181 a throsodd	Dim Grant Cwrs
Incwm y Cartref	Grant Cwrs Uchaf										
£26,095 a llai	£1,155										
Rhwng £26,096 a £28,179	Grant Cwrs o £1,155 yn llai £1 am bob £1.886 o incwm (cyn treth) dros £26,095										
£28,180	£50										
£28,181 a throsodd	Dim Grant Cwrs										
Sut fydd yn cael ei dalu?	Telir y Grant Cwrs i'ch cyfrif banc fel un cyfandaliad.										
A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?	Na fydd.										
Unrhyw beth arall?	Rhaid bod dwyster y cwrs yr ydych yn ei astudio yn 50% o leiaf er mwyn cael Grant Cwrs. Gallwch ymgeisio hyd at naw mis wedi i'ch cwrs gychwyn.										



Beth yw dwyster cwrs?

Dwyster cwrs yw faint o amser a gymer i gwblhau eich cwrs rhan-amser o gymharu â'r cwrs amser llawn cyfatebol.

Sut mae dwyster cwrs yn cael ei gyfrifo

Er mwyn cael isafswm y cyllid i fyfyrwyr sydd ar gael, rhaid eich bod yn astudio cwrs dan drefniant dwyster astudio o 25% o leiaf mewn un flwyddyn academiaidd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gwblhau eich cwrs rhan-amser cyn pen pedair gwaith yr amser (hyd at uchafswm

o 16 o flynyddoedd) y byddai'n ei gymryd i chi gwblhau eich cwrs os byddech yn astudio dan drefniant amser llawn.

I gyfrifo dwyster eich cwrs, dylech gymryd nifer yr unedau rhan-amser (megis credydau, pwyntiau credyd neu fodiwlau) y byddwch yn eu hastudio yn ystod y flwyddyn academiaidd, a'u rhannu gyda nifer yr unedau y byddech yn eu cwblhau mewn un flwyddyn academiaidd pe byddech yn astudio eich cwrs dan drefniant amser llawn. Dylech luosi'r rhif hwn gyda 100 er mwyn cael dwyster eich cwrs fel canran.

Er enghraifft:

Credydau rhan-amser

Credydau amser llawn

X

100


=

% dwyster y cwrs



Os nad ydych yn siŵr am nifer y credydau, y pwyntiau credyd neu'r modiwlau y byddwch yn eu hastudio yn ystod pob blwyddyn academiaidd, dylech siarad gyda'ch prifysgol neu'ch coleg.





Ble'r ydych chi'n byw

Dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol i chi allwch chi wneud cais:

- rydych yn ddinesydd y Deyrnas Unedig neu'n meddu ar 'statws preswlydd sefydlog' (mae hyn yn golygu nad oes unrhyw gyfyngiadau ar hyd y cyfnod y bydd modd i chi aros yn y Deyrnas Unedig);
- rydych yn byw yng Nghymru fel arfer; ac
- rydych wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig am o leiaf dair blynedd cyn i chi gychwyn ar eich cwrs.

Os nad ydych yn bodloni'r amodau hynny, efallai y byddwch yn gymwys hefyd:

- os ydych yn ddinesydd o'r UE, neu'n berthynas dinesydd o'r UE;
- os ydych yn ffoadur, neu'n berthynas i un;
- os ydych yn dstunn Diogelwch Dyngarol (o ganlyniad i gais am loches a fu'n aflwyddiannus);
- os ydych wedi cael Caniatâd yn ôl Disgresiwn i aros yn y Deyrnas Unedig, neu'n berthynas i rywun sydd wedi cael Caniatâd yn ôl Disgresiwn i aros yn y Deyrnas Unedig;
- os ydych yn weithiwr mudol o'r AEE/y Swistir, neu'n berthynas i un;
- os ydych yn blentyn dinesydd o'r Swistir; neu
- os ydych yn blentyn gweithiwr o Dwrci.

Astudio blaenorol

Fel arfer, gallwch gael cyllid i fyfyrwyr ar gyfer eich cwrs addysg uwch cyntaf yn unig. Os ydych chi eisoes wedi astudio cwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig, efallai na fyddwch yn cael help am ail gwrs.

Gallwch gael uchafswm o 16 mlynedd o gyllid rhan-amser. Rhaid i unrhyw beth dros y swm yma gael ei ariannu gennych chi eich hun.

Eich oedran

Nid oes terfyn oedran i wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu neu Grant Cwrs.

Eich cwrs

Dylai'ch cwrs arwain at gymhwyster addysg uwch cydnabyddedig fel:

- gradd gyntaf (er enghraifft, BA, BSc neu BEd)
- Gradd Sylfaen
- Tystysgrif Addysg Uwch
- Diploma Addysg Uwch (DipHE)
- Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC)
- Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)
- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)
- Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)

Os nad ydych yn siŵr a yw'ch cwrs yn gwrs cymwys er mwyn manteisio ar gyllid i fyfyrwyr, holwch eich prifysgol neu'ch coleg.

Eich prifysgol neu goleg

Rhaid i'r brifysgol neu'r coleg yr ydych yn bwriadu astudio ynddi/ynddo fod yn y DU ac:

- wedi'i ariannu gan arian cyhoeddus (talwyd gan y llywodraeth)

neu

- wedi'i ariannu gan arian preifat ond yn rhedeg cyrsiau unigol sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru

Os byddwch yn cychwyn ar gwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) rhan-amser yn ystod 2017/18, caiff eich cwrs ei ystyried fel cwrs rhan-amser dynodedig. Felly, efallai byddwch yn gymwys fel myfyriwr rhan-amser cymwys:

- os cychwynnodd eich cwrs HCA ar neu ar ôl 1 Medi 2014
- os nad yw'ch cwrs yn parhau'n hirach na phedair gwaith hyd cwrs amser llawn cyfatebol
- os nad ydych yn athro cymwys yn barod

Os nad ydych yn siŵr a yw'ch prifysgol neu'ch coleg yn gymwys, dylech ei holi.

Am ragor o wybodaeth ynghylch a ydych yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwr, trowch at

www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk



SUT A PHRYD Y DYLWN I WNEUD CAIS?

Ymgeisio ar-lein

Os dechreuoch eich cwrs ar neu wedi 1 Medi 2014, gallwch ymgeisio ar-lein am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Cwrs unwaith y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Beth i'w wneud

1. Ymgeisiwch cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor i wneud yn siŵr fod eich cyllid i fyfyrwyr yn barod ar gyfer dechrau eich cwrs.
2. Byddwn yn prosesu eich cais ac yn anfon llythyr hawl i gyllid i fyfyrwyr atoch yn dangos beth allwch chi ei gael.
3. Dangoswch eich llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrwyr i'ch prifysgol neu'ch coleg os byddant yn gofyn am gael ei weld.
4. Pan fyddwch yn cychwyn eich cwrs, bydd eich prifysgol neu goleg yn rhoi gwybod i ni eich bod wedi cofrestru. Ar ôl i ni gael y cadarnhad hwn, telir eich Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu'ch coleg yn uniongyrchol, a thelir unrhyw grantiau i mewn i'ch cyfrif banc.

A FYDD ANGEN I MI DDARPARU UNRHYW DYSTIOLAETH?



Profi eich hunaniaeth

Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr, bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch hunaniaeth – bydd hyn yn ein helpu i gadarnhau a allwch gael cyllid i fyfyrwyr. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw rhoi manylion eich pasbort dilys y DU i ni yn eich cais. Yna, gallwn archwilio a chadarnhau eich hunaniaeth heb i chi orfod anfon eich pasbort atom.

Os nad oes gennych chi basbort dilys y DU, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif geni neu fabwysiadau y DU atom, ynghyd â 'Ffurflen ystysgrif Geni/Mabwysiadu 2017/18' wedi'i llenwi. Gellir lawrlwytho hon o www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Os ydych yn ddeiliad pasbort nad yw'n basbort o'r DU, bydd angen i chi anfon eich pasbort dilys nad yw'n basbort y DU neu'ch Hawlen Breswyllo Fiometrig atom i'r cyfeiriad a nodir yn y ffurflen gais.

Rhaid i'r rhain fod yn ddogfennau gwreiddiol, nid llungopiau. Byddwn yn eu dychwelyd ar ôl i ni gadarnhau eich hunaniaeth ac archwilio eich bod yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr.

Tystiolaeth o incwm y cartref

I wneud cais am Grant Cwrs, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o incwm eich cartref (eich incwm chi ac incwm eich partner, os oes gennych un).

Dylech anfon unrhyw dystiolaeth y gofynnwn amdani cyn gynted â phosibl. Ni allwn brosesu eich cais nes ein bod wedi cael yr holl dystiolaeth angenrheidiol. Os yw'ch cais yn hwyr, efallai y bydd eich arian yn hwyr hefyd.

Dylech anfon llungopiau atom o unrhyw wybodaeth ariannol – ni ddylech anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ni fyddwn yn dychwelyd copïau o unrhyw beth a anfonwyd atom fel prawf o incwm eich cartref. Ar ôl i ni orffen gyda nhw, byddwn yn eu dinistrio mewn ffordd ddiogel.

Mae angen i fyfyrwyr sy'n parhau ailymgeisio am gyllid pob blwyddyn. Os ydych chi'n ymgeisio am Grant Cwrs, bydd angen i chi anfon tystiolaeth ariannol atom pob blwyddyn.

Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Ar **unrhyw adeg**, gallwch anfon ffurflen Newid Amgylchiadau (CO2) atom i ddweud wrthym am unrhyw newid arall yn eich amgylchiadau neu os hoffech newid swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu yr ydych yn dymuno'i gael.

Gallwch lawrlwytho ffurflen CO2 o www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Os bydd swm y ffioedd dysgu y bydd eich prifysgol neu'ch coleg yn eu codi arnoch yn newid **cyn** i chi gychwyn eich cwrs, dylech ddweud wrthym am hyn yn uniongyrchol. Fodd bynnag, os bydd yn newid **ar ôl** i'ch cwrs gychwyn, bydd angen i chi ofyn i'ch prifysgol neu'ch coleg ddweud wrthym am hyn.

Os ydych yn bwriadu newid eich cwrs, newid dwyster eich cwrs, ailadrodd blwyddyn, gadael addysg uwch neu atal eich astudiaethau ar ôl i'ch cwrs gychwyn, bydd angen i chi ofyn i'ch prifysgol neu'ch coleg ddweud wrthym.

OES ANGEN I MI AILYMGEISIO POB BLWYDDYN?

Cofiwch, bydd angen i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr am bob blwyddyn o'ch cwrs. Fodd bynnag, dim ond y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais y bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch hunaniaeth.

Gallai'r fffioedd a godir newid bob blwyddyn a gall symiau grantiau a benthyciadau newid hefyd.

BETH AM AD-DALIADAU?



Bydd y swm y byddwch yn ei ad-dalu bob mis yn dibynnu ar eich incwm, nid y swm y byddwch yn ei fenthycu.

Bydd disgwyl i chi ddechrau talu eich benthyciad yn ôl y mis Ebrill bedair blynedd wedi dechrau eich cwrs, neu'r Ebrill wedi i chi orffen neu adael eich cwrs, pa un bynnag sydd yn dod gyntaf.

Cofiwch, na fydd gofyn i chi ddechrau talu ad-daliadau nes bydd eich incwm dros £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £404 yr wythnos.

- Mae'ch ad-daliadau yn seiliedig ar eich incwm ar ôl i chi orffen astudio.
- Mae eich incwm yn cynnwys eich cyflog ac unrhyw ffynonellau incwm eraill sydd gennych, er enghraifft, incwm o bensiwn neu rent.
- Bydd unrhyw fenthyciad sydd heb ei ad-dalu 30 o flynyddoedd ar ôl yr adeg pan fydd gofyn i chi ddechrau talu ad-daliadau, yn cael ei ganslo.
- Bydd eich cyflogwr yn cymryd 9% o'ch incwm dros y trothwy yn awtomatig, trwy

gyfrwng system dreth y Deyrnas Unedig (Talu wrth Ennill – PAYE) neu byddwch yn talu trwy'r system hunanasesu os ydych yn hunangyflogedig.

- Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid i adlewyrchu hyn. Os byddwch yn stopio gweithio, bydd eich ad-daliadau'n stopio nes byddwch yn dechrau gweithio unwaith eto ac mae'ch incwm yn uwch na'r trothwy.
- Gallwch wneud ad-daliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg. I wneud ad-daliad gwirfoddol ac am ragor o wybodaeth, ymwelwch â **www.studentloanrepayment.co.uk**
- Os byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'ch benthyciad o hyd. Yn yr achos hwn, gallai'r broses ad-dalu fod yn wahanol.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai enghreifftiau o'r swm y gallech ei ad-dalu bob mis.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Cyflog misol	Ad-daliad misol yn fras
£21,000	£1,750	£0
£24,000	£2,000	£22
£27,000	£2,250	£45
£30,000	£2,500	£67
£33,000	£2,750	£90
£36,000	£3,000	£112

Os ydych chi'n briadiu byw, gweithio neu deithio tu allan i'r Deyrnas Unedig am o leiaf dri mis wedi i chi orffen neu adael eich cwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni. Byddwch yn dal i fod angen gwneud ad-daliadau ar eich benthyciad, ond efallai y bydd yr ad-daliad yn wahanol yn ddibynnol ar y wlad rydych ynddi.

Gallwch ddysgu mwy am ad-dalu o dramor drwy fynd i **www.slc.co.uk/ad-dalu**

Llog

Codir llog o'r diwrnod pan fyddwn yn gwneud eich taliad benthyciad cyntaf nes bydd eich benthyciad wedi ei dalu'n llawn.

Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Manwerthu'r Deyrnas Unedig (RPI)* a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar eich amgylchiadau. Mae'r gyfradd llog yn cael ei ddiweddarau unwaith y flwyddyn ym Medi, yn defnyddio'r RPI o fis Mawrth y flwyddyn honno.

Bydd swm y llog a godir yn amrywio, yn ddibynnol ar eich amgylchiadau:

	Cyfradd llog
Yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn astudio a than fis Ebrill ar ôl i chi adael eich cwrs neu fis Ebrill bedair blynedd ar ôl i'ch cwrs gychwyn pa un bynnag sy'n dod yn gyntaf.	RPI plws 3%
O'r mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs neu'r mis Ebrill bedair blynedd ar ôl dechrau eich cwrs.	Bydd llog yn seiliedig ar eich incwm. £21,000 neu'n llai – RPI Rhwng £21,000 a £41,000 – RPI a hyd at 3%, gan ddibynnu ar incwm £41,000 a throsodd – RPI a 3%

I gael gwybod mwy am ad-dalu, ewch i www.slc.co.uk/ad-dalu

* RPI yw mesur o chwyddiant y DU. Mae'n mesur newidiadau i'r gost o fyw yn y DU.




Gallwch fonitro'ch ad-daliadau ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif yn www.studentloanrepayment.co.uk

Bydd unrhyw fenthyciad myfyrwr na fydd wedi cael ei ad-dalu 30 o flynyddoedd ar ôl y bydd gofyn i chi ddechrau gwneud ad-daliadau, yn cael ei ddileu.



PA HELP YCHWANEGOL SYDD AR GAEL?



Os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser ac os oes gennych chi blant neu oedolion dibynnol, neu anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia neu ddyspracsia, efallai y gallech gael cymorth ychwanegol yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol neu'r coleg.

Lwfansau i Fyfrwyr Anabl (DSAs)

Beth yw ei bwrpas?

Mae DSAs yn helpu gyda chostau astudio ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Gall DSAs helpu i dalu am offer arbenigol, helpwr anfeddygol, costau teithio neu gostau eraill.

Faint allaf i gael?

Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich anghenion unigol. Mae'r tabl isod yn dangos yr help sydd ar gael a'r uchafsymiau ar gyfer eleni.

Lwfans	Uchafswm
Lwfans Helpwr Anfeddygol – mae'n helpu i dalu am weithwyr cymorth a chynorthwywyr anfeddygol eraill sydd eu hangen i elwa'n llawn o'ch cwrs.	£15,885 y flwyddyn
Lwfans Offer Arbenigol – mae'n helpu i dalu am unrhyw offer hanfodol sy'n angenrheidiol.	£5,332 ar gyfer y cwrs cyfan
Lwfans Cyffredinol – mae'n helpu i dalu costau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs eraill sydd gennych o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd.	£1,338 y flwyddyn
Lwfans Teithio - mae'n helpu i dalu unrhyw gostau teithio y gallech orfod eu talu er mwyn mynychu'ch prifysgol neu goleg oherwydd eich anabledd.	Gwariant rhesymol ar gostau teithio ychwanegol.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai y byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar.

Unrhyw beth arall?

Rhaid eich bod yn astudio ar ddwyyster cwrs o 25% neu fwy i gael DSAs.

Nid yw DSAs yn ddibynnol ar incwm eich cartref. I ymgeisio, dylech lawrlwytho ffurflen gais DSA1 o www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk, ei llenwi a'i dychwelyd atom.

GRANTIAU DIBYNYDDION

Lwfans Dysgu i Rien (PLA)

Beth yw ei bwrpas?

Mae PLA yn helpu talu costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs os oes gennych chi blant dibynnol.

Beth allaf i gael?

Gallwch gael hyd at £1,167.75 y flwyddyn. Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref a dwyster eich cwrs. Incwm eich cartref yw incwm eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner (os oes gennych chi un) ac unrhyw ddibynyddion.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn cael gordaliad o ganlyniad i newid yn eich amgylchiadau. Felly mae'n bwysig rhoi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau yn newid.

Unrhyw beth arall?

Rhaid eich bod yn astudio ar ddwyyster cwrs o 50% neu fwy. Fel arfer fe'i telir mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i mewn i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol.

Os ydych chi'n fyfyrwr sy'n parhau yn ymgeisio am PLA am y tro cyntaf, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o unrhyw blant sy'n dibynnu arnoch chi'n ariannol.

Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Beth yw ei bwrpas?

Mae ADG yn helpu talu costau sy'n gysylltiedig â'ch cwrs os oes gennych chi oedolyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Beth allaf i gael?

Gallwch gael hyd at £2,049 y flwyddyn. Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref a dwyster eich cwrs. Incwm eich cartref yw incwm eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner (os oes gennych chi un) ac unrhyw ddibynyddion.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn cael gordaliad o ganlyniad i newid yn eich amgylchiadau. Felly mae'n bwysig rhoi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau yn newid.

Unrhyw beth arall?

Rhaid i ddwyyster y cwrs yr ydych yn ei astudio fod yn 50% neu'n fwy. Fel arfer, telir ADG ar ffurf tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i mewn i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol.

Os ydych chi'n fyfyrwr sy'n parhau yn ymgeisio am ADG am y tro cyntaf, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o unrhyw oedolion sy'n dibynnu arnoch chi'n ariannol.

Grant Gofal Plant (CCG)

Beth yw ei bwrpas?

Mae CCG yn helpu talu costau gofal plant os oes gennych chi blant dibynnol dan 15 oed (neu 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig) mewn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Beth allaf i gael?

Bydd faint o CCG sy'n daladwy yn seiliedig ar 85% o'ch gwir gostau gofal plant. Gallwch gael hyd at uchafswm o £121.13 yr wythnos os oes gennych chi un plentyn neu £205.91 yr wythnos os oes gennych chi ddau o blant neu fwy. Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar ddwyyster eich cwrs hefyd.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar neu'n goramcangyfrif eich costau gofal plant.

Unrhyw beth arall?

Rhaid i ddwyyster y cwrs yr ydych yn ei astudio fod yn 50% neu'n fwy. Rhaid i chi wneud cais am CCG cyn pen naw mis o ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Nid oes modd i chi gael CCG os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig neu'ch partner yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol, Gofal Plant Di-dreth gan Gyllid a Thollau EM, neu Lwfans Gofal Plant gan y GIG. Ond gallwch ddewis cael Grant Gofal Plant yn lle hynny.

Fel arfer, telir CCG mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor. Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd swm y CCG y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar amcangyfrifon ynghylch faint y bydd eich gofal plant yn ei gostio yn eich barn chi. Byddwn yn gofyn i chi a'ch darparwr gofal plant gadarnhau'ch costau go iawn dair gwaith yn ystod y flwyddyn.




Sut i wneud cais am Grantiau Dibynyddion

Os ydych chi eisiau gwneud cais am Grant Dibynyddion, dylech lawrlwytho 'Ffurflen gais am Grantiau Dibynyddion ar gyfer myfyrwyr rhan-amser' (PTGFD) o www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk, ei llenwi a'i dychwelyd atom. Neu, gallwch roi tic yn y blwch yn y prif gais i'n hysbysu eich bod yn dymuno gwneud cais am Grantiau Dibynyddion, a byddwn yn anfon y ffurflen atoch i'w llenwi.

Os ydych chi'n ymgeisio am Grant Gofal Plant, bydd hefyd angen i chi gwblhau 'Cais am help gyda chostau gofal plant ar gyfer myfyrwyr rhan-amser' (PTCCG1) er mwyn darparu amcan brisiau o'ch costau gofal plant. Mae hyn ar gael i'w lawrlwytho o www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk neu gallwn anfon un i chi.

Adran 9

A OES UNRHYW FFYNONELLAU CYLLID ERAILL AR GAEL?



Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Gallai ffynonellau eraill o gymorth ariannol fod ar gael gan eich prifysgol neu goleg megis bwrsariaeth neu ysgoloriaeth.

Gall y rhain fod yn ddibynol ar incwm eich cartref ac amrywio mewn gwahanol brifysgolion a cholegau ac ar gyfer gwahanol gyrsiau. Bydd gan brifysgolion a cholegau fanylion y bwrsariaethau ac ysgoloriaethau maent yn gynnig ar eu gwefannau ac efallai y byddant yn gallu cynnig cymorth ychwanegol os ydych chi mewn trafferthion ariannol.

Budd-daliadau

Fel myfyriwr rhan-amser, gallwch hawlio budd-daliadau sy'n ddibynol ar incwm eich cartref o hyd (budd-daliadau prawf modd), megis Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol a Gostyngiad y Dreth Gyngor os ydych yn ddi-waith.

Ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith nac adran fudd-daliadau eich awdurdod lleol yn trin y Benthyciad Ffioedd Dysgu na Lwfansau i Fyfywrwr Anabl fel incwm wrth asesu unrhyw fudd-daliadau a asesir ar sail incwm..

Cofiwch mai gwybodaeth gyffredinol a ddarparir yn y canllaw hwn. Os ydych o'r farn y gallech fod yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau y cyfeiriwyd atynt, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, adran budd-daliadau eich awdurdod lleol neu adran gwasanaethau myfyrwyr eich prifysgol neu'ch coleg.

RHAGOR O WYBODAETH A CHYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Cyllid Myfyrwyr Cymru

Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Gallwch hefyd ein ffonio ar **0300 200 4050** (ffôn testun: 0300 100 1693) rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar wefan yr NUS trwy droi at www.nus.org.uk/nus-wales

Scholarship Search UK

Mae hyn yn darparu gwybodaeth am ffynonellau cyllid eraill ar gyfer israddedigion.

Y wefan yw www.scholarship-search.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)

Mae NASMA yn elusen sy'n gweithio i helpu myfyrwyr trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant.







Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy droi at www.nasma.org.uk





FY RHESTR GYFEIRIO

CYCHWYN

-  1 Rydw i wedi ymgeisio ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**
-  2 Rydw i wedi llenwi pob adran sy'n berthnasol i mi, rydw i wedi llofnodi'r datganiad ac wedi darparu unrhyw dystiolaeth ofynnol.
-  3 Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi anfon llythyr Hawl i Gyllid i Fyfywrwr ataf yn nodi faint y byddaf yn ei gael.
-  4 Rydw i wedi dangos fy llythyr Hawl i Gyllid i Fyfywrwr i'm prifysgol neu goleg, yn ôl y gofyn.
-  5 Rydw i wedi dechrau fy nghwrs ac mae fy mhrifysgol neu goleg wedi cadarnhau fy nod wedi cofrestru.
-  6 Mae fy arian wedi cael ei dalu.

GORFFEN

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr HMSO 2017.

Cynhyrchwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyryr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon at ddibenion ymchwil anfasnachol, addysg neu hyfforddiant, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydnabod.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â **HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk**

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig arweiniad yn unig, ac nid yw'n cynnig datganiad o'r gyfraith.

Am ragor o wybodaeth ac er mwyn ymgeisio, trowch at **www.cyllidmyfyrywrcymru.co.uk**

 facebook.com/SFWales

 twitter.com/SF_Wales

 youtube.com/SFWFILM

WG: WG30878

ISBN: 978-1-4734-8533-4